



Ministry
of Justice

Grant Cymorth Cyfreithiol i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LSLIP)

Adolygiad Canol Grant

Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau

Rhagfyr 2021

Tîm Dadansoddi Cymorth Cyfreithiol

Caiff y pecyn cryno hwn ei lywio gan adroddiad canol grant LSLIP, yn seiliedig ar ddata meintiol ac ansoddol a gasglwyd gan dderbynwyr y grant

SWYDDOGOL SENSITIF

Mae'r Grant Cymorth Cyfreithiol i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LSLIP) yn cyflawni'r ymrwymadau yn Nghynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol. Ymysg yr ymrwymadau roedd yr addewid i gynyddu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y Strategaeth Cymorth i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain i £3 miliwn am ddwy flynedd.

Er mwyn darparu'r cyllid hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ffurfio partneriaeth â'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, sefydliad sydd â phrofiad sylweddol o reoli grantiau i'r sector cynghori*. Mae'r ddau sefydliad wedi cydweithio'n agos i ddatblygu'r rhaglen LSLIP, a lanswyd yn ffurfiol ym mis Ebrill 2020 gyda thri amcan canolog:

- 1 Gwella gwasanaethau sy'n cefnogi'r **ymyriadau cynharaf posibl** ar gyfer ymglyfreithwyr drostynt eu hunain, gan leihau'r risg y bydd eu problemau'n gwaethygu.
- 2 Datblygu ein dealltwriaeth o **sut a phryd y mae ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn cael mynediad at wahanol wasanaethau**, er mwyn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch y bobl y mae angen iddynt eu defnyddio.
- 3 **Creu sylfaen dystiolaeth** o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, drwy werthuso effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir gan y grant newydd i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain.

Felly, mae gwerthuso'n elfen allweddol o'r grant ac mae pawb sydd wedi derbyn y grant wedi ymdrechu'n sylweddol i gasglu tystiolaeth drwy gasglu amrywiaeth o ddata meintiol ac ansoddol. Mae'r adolygiad canol grant yn dwyn yr holl ddata ynghyd, i adrodd ar gynnydd tuag at dri amcan y grant. Mae'r pecyn hwn yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau.

*Mae'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder yn rheoli'r Strategaeth Cymorth i Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain, y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu £1.45m o gyllid y flwyddyn er 2015, a'r Gronfa Cyfiawnder Cymunedol, a ddarparodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder £4.4m yn ddiweddar i gefnogi'r sector cynghori drwy gydol y pandemig.

Nid yw'r adolygiad canol grant o reidrwydd yn ddangosydd perfformiad cywir, ond yn arwydd o gynnydd

Ar gyfer pawb sy'n derbyn y grant, mae'r cyfnod a gwmpesir gan yr adolygiad canol grant yn cynnwys y cyfnod sefydlu cychwynnol ar gyfer eu prosiectau ac felly bydd yn adlewyrchu camau gweithredu cynnar, gan gynnwys sefydlu gwasanaethau yn y lle cyntaf, recriwtio cynghorwyr, hyrwyddo gwasanaethau a dod yn gyfarwydd â'r gwaith o gasglu data ac adrodd. Mae hyn yn golygu efallai na fydd y ffigurau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu gwasanaethau yn llawn ac efallai y bydd problemau'n gysylltiedig â chyfri anghysonderau ac ymgorffori gwasanaethau a phrosesau casglu data.

Rhoddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder arweiniad ysgrifenedig a llafar i dderbynwyr y grant, a chynhaliodd weithdai monitro ac adrodd a sesiynau datrys problemau, i gefnogi derbynwyr y grant a cheisio cysondeb. Fodd bynnag, **mae'n bosibl bod sefydliadau ym mhob partneriaeth wedi dehongli a gweithredu'r broses casglu data ychydig yn wahanol, a allai gael rhywfaint o effaith ar wahaniaethau mewn canlyniadau**

Nid oedd yn gymesur nac yn ymarferol ymgymryd â dull arbrol neu led-arbrol na chasglu data ar grŵp cymharu er mwyn sefydlu achos, oherwydd y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â'r methodolegau hyn a'r angen i flaenoriaethu'r ddarpariaeth yn ystod Covid-19. **Felly, mae angen rhagor o dystiolaeth er mwyn priodoli'r canlyniadau hyn yn hyderus i'r cyngor a'u cyffredinoli.**

Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar **samplau o feintiau gwahanol** ac mae angen mwy o ddata i gefnogi'r casgliadau hyn. Bydd rhagor o ddata'n cael ei gasglu drwy gydol oes LSLIP a bydd y tueddiadau hyn yn cael eu monitro.

Mae LSLIP yn ariannu amrywiaeth o wasanaethau ledled Cymru a Lloegr sy'n darparu cyngor ar raddfa genedlaethol, ranbarthol a lleol

Pum grant lleol, sy'n cynyddu'r ddarpariaeth o sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gydag ymgyfreithwyr drostynt eu hunain mewn sawl maes cyfraith sifil a theulu.

Mae 19 o sefydliadau'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau a ariennir gan y pum grant hyn

| | | | | |
|-------------------|----------------------------------|--------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------|
| Suffolk a Norfolk | Canolbarth a Gogledd Swydd Efrog | Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn | Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr | Dorset a De Gwlad yr Haf |
|-------------------|----------------------------------|--------------------------------------|---------------------------------------|--------------------------|

Tri grant rhanbarthol, sy'n creu rhwydweithiau cydlynol ar draws rhanbarth ac mewn ardaloedd daearyddol.

Mae 29 o sefydliadau'n ymwneud â darparu gwasanaethau a ariennir gan y tri grant hyn.


| | | |
|-------------------------|-----------------------------|--------------------|
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | Gogledd a Chanolbarth Cymru | Dyfnaint a Chernyw |
|-------------------------|-----------------------------|--------------------|

Tri grant cenedlaethol, sy'n darparu gwybodaeth, arweiniad a/neu gyngor ledled Cymru a Lloegr.

Mae 4 o sefydliadau'n ymwneud â darparu gwasanaethau a ariennir gan y tri grant hyn.

| | | |
|-------------------------------------|----------|--------------|
| Support Through Court ac RCJ Advice | LawWorks | Law For Life |
|-------------------------------------|----------|--------------|


Map o gwmpas daearyddol y partneriaethau LSLIP lleol a rhanbarthol



*IDAS - Independent Domestic Abuse Service

Rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021, mae derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi cynghori 7,700 o gleientiaid gyda 8,300 o broblemau* (1/2)

Diffinnir cleient fel un person ac mae problem yn cael ei diffinio fel problem mewn un maes cyfreithiol, fel problem gydag apêl budd-daliadau lles.



Chwarter 1: Yn ystod y chwarter cyntaf, roedd derbynwyr y grant yn sefydlu eu prosiectau, yn recriwtio cynghorwyr ac yn sefydlu prosesau casglu data, a oedd yn golygu nad oedd y rhan fwyaf o wasanaethau'n dechrau darparu cyngor tan fis Tachwedd 2020. Roedd y chwarter cyntaf hefyd yn cyd-daro â'r cyfnod gwyliau, cyfyngiadau symud Tachwedd a'r Gaeaf ac amrywiaeth o newidiadau polisi eraill mewn ymateb i'r pandemig, a gafodd effaith ar y broses darparu gwasanaethau.

Chwarter 2 a 3: Cynyddodd nifer y cleientiaid yn yr ail a'r trydydd chwarter, wrth i wasanaethau ddechrau ymsefydlu a chyrraedd capasiti llawn. Mae derbynwyr y grant yn rhagweld y bydd y galw hwn yn parhau i gynyddu dros y misoedd nesaf wrth i apwyntiadau wyneb yn wyneb ailddechrau, gan ei bod yn ymddangos bod cyfyngiadau'r pandemig a chymorth brys a roddwyd ar waith drwy gydol y pandemig wedi gohirio'r cynnydd mewn materion cyfreithiol a'r galw am gyngor.

*Efallai y rhoddwyd cyngor i'r cleientiaid hyn ar faterion eraill fel rhan o ddarpariaeth ehangach derbynwyr y grantiau nad ydynt yn cael eu hariannu gan LSLIP, na fydd yn cael ei gynnwys yn y data hwn. Felly, ni ddylid dehongli'r ffigurau hyn fel rhai sy'n awgrymu bod pob cleient yn profi 1.1. problem ar gyfartaledd.

Rhwng mis Hydref 2020 a mis Mehefin 2021, mae derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi cynghori 7,700 o gleientiaid gyda 8,300 o broblemau (2/2)


Mae'r rhan fwyaf o'r materion y cynigir cyngor yn eu cylch gan wasanaethau LSLIP wedi bod yn faterion teuluol, cyflogaeth, problemau tai neu fudd-daliadau lles.




Cyflogaeth



**Aelodau
'r teulu**



Tai



**Budd-daliadau
Lles**

Mae'r rhain yn feysydd y gofynnodd llawer o dderbynwyr y grant am gyllid ar eu cyfer, gan eu bod wedi'u nodi fel meysydd lle'r oedd gan sefydliadau fwch yn eu cynnig gwasanaeth a/neu feysydd lle'r oedd disgwyl y byddai cynnydd yn y galw am gyngor o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Mae nifer fach o'r materion sy'n weddill wedi ymwneud â dyled, gwahaniaethu, trais yn y cartref, gofal yn y gymuned, cyfraith gyhoeddus a materion eraill.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a roddwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant ar y materion hyn wedi bod yn gyngor cyffredinol cychwynol (1/2)

Mae'r grant LSLIP yn ariannu cyngor ar wahanol gamau o'r daith datrys problemau. Er mwyn cofnodi hyn yn gyson, mae derbynwyr y grant wedi adrodd ar eu gweithgareddau ym mhob un o feysydd y gyfraith mewn pedwar cam allweddol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a ddarparwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi bod ar y cam cyngori cyffredinol cyntaf (cam 1), gyda llawer iawn o gyngor yn cael ei ddarparu yn y cam gwaith achos (cam 2) a'r cam cyngor cyn y llys (cam 3a).


| | Cam | Y cymorth a ddarperir | Cyfanswm nifer y materion y rhoddwyd cyngor yn eu cylch | Cyfran yr holl faterion |
|---|--------|--|---|-------------------------|
| Cyn ymgysylltu â'r system gyfiawnder ffurfiol | Cam 1 | Cyngor cyffredinol cychwynol a brysbennu | 5,700 | 68% |
| | Cam 2 | Gwaith achos | 1,600 | 19% |
| Wrth ymgysylltu â'r system gyfiawnder ffurfiol | Cam 3a | Cyngor, arweiniad a chefnogaeth cyn y llys | 1,100 | 13% |
| | Cam 3b | Cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys | 60 | <1% |

Mae'r rhan fwyaf o'r cyngor a roddwyd gan dderbynwyr lleol a rhanbarthol y grant ar y materion hyn wedi bod yn gyngor cyffredinol cychwynol (2/2)

Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y mathau o gyngor mewn gwahanol feysydd o'r gyfraith, sy'n adlewyrchu'n rhannol natur wahanol y problemau, y bobl sy'n eu profi a'r camau sydd angen eu cymryd i'w datrys.

Er enghraifft, mae lefel uwch o gyngor cam diweddarach o ran budd-daliadau lles gan fod llawer o gleientiaid eisoes wedi gwneud hawliad aflwyddiannus yn erbyn y penderfyniad ac yn awr mae angen cymorth arnynt gyda'r broses apelio. Mae'r broses apelio'n cynnwys gwaith achos a chymorth gyda gwrandawriad Tribiwnlys, ac felly mae angen cymorth mwy dwys yn ddiweddarach.

Mae'r cynnydd mawr yn nifer y materion y rhoddwyd cyngor yn eu cylch yn y chwarter diweddaraf yn rhannol oherwydd cynnydd sylweddol mewn cyngor yng ngham 1.



Yn fras, mae'n ymddangos bod y derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant yn cyrraedd carfan debyg o ddefnyddwyr Cyngor ar Bopeth

Nid yw llawer o gleientiaid yn datgelu'r wybodaeth hon oherwydd pryder y gallai amharu ar eu mynediad at wasanaethau, felly mae'n bosibl y bydd y sampl hon yn gwyro tuag at grwpiau penodol ac na fydd yn gynrychioliadol o bob cleient.

Rhyw

Datgelodd 80% o'r cleientiaid eu rhyw. Gan dynnu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae tua dwy ran o dair o'r cleientiaid yn fenywod.

Mae ychydig o amrywiaeth ym meysydd y gyfraith, ond mae dros hanner yr holl gleientiaid ym mhob maes problem yn fenywod.

| | Gwrywaidd | Benywaidd | Anneuaidd |
|-----------------|-----------|-----------|-----------|
| % y cleientiaid | 38% | 62% | <1% |

Hil

Roedd 61% o'r cleientiaid wedi datgelu eu hil. Gan dynnu'r rheini y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae'r rhan fwyaf o'r cleientiaid yn wyn.

Mae hyn yn llai amrywiol na defnyddwyr Cyngor ar Bopeth a Chyfrifiad 2011, ond efallai fod mwy o amrywiaeth ymysg cleientiaid nag y mae hyn yn ei

| | Gwyn | Asiaidd | Du | Cymysg | Arall |
|-----------------|------|---------|----|--------|-------|
| % y cleientiaid | 91% | 4% | 2% | 1% | 1% |

Oedran

Datgelodd 79% o'r cleientiaid eu hoedran. Gan dynnu'r rhai y mae'n well ganddynt beidio â dweud, mae tua dwy ran o dair o'r cleientiaid lleol a rhanbarthol rhwng 25 a 55 oed.

Mae ychydig o amrywiaeth ymysg meysydd y gyfraith, gyda charfan iau o gleientiaid gyda phroblemau teuluol, na meysydd eraill y gyfraith.

| | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75+ |
|-----------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|
| % y cleientiaid | 8% | 22% | 22% | 21% | 17% | 7% | 4% |

Anabledd a bod yn agored i niwed

Mae'r data'n awgrymu bod gan o leiaf chwarter y cleientiaid anabledd, ond mae astudiaethau achos cleientiaid, cyfweiliadau gyda derbynwyr y grant a thystiolaeth bresennol am nifer yr achosion o broblemau cyfreithiol yn awgrymu bod 26% yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel.

Mae derbynwyr y grant hefyd yn adrodd eu bod yn ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau o gleientiaid y mae eu hamgylchiadau'n golygu eu bod yn fwy agored i risg ac yn fwy agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys iechyd corfforol gwael, salwch meddwl, cam-drin domestig, incwm isel, allgáu digidol, Saesneg fel ail iaith ac arwahanrwydd gwledig.

Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y cyngor a'r gefnogaeth yn gwella canlyniadau cleientiaid (1 o 2)

Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ddata interim o feintiau sampl gwahanol, felly mae angen mwy o ddata i gefnogi'r casgliadau hyn. Bydd rhagor o ddata'n cael ei gasglu drwy gydol oes LSLIP a bydd y tueddiadau hyn yn cael eu monitro.

Mae astudiaethau achos cleientiaid drwy gydol yr adroddiad yn dangos sut mae gwelliannau o ran y canlyniadau hyn wedi helpu cleientiaid i ddatrys eu problemau, gan wella eu sefyllfaoedd.

Gwell gallu cyfreithiol

Er nad oes angen i ddinasyddion fod yn arbenigwyr cyfreithiol, mae angen iddynt fod â lefel sylfaenol o allu cyfreithiol, i gydnabod y gallai eu problem gael ei datrys yn gyfreithiol, a bod â'r sgiliau, y gallu a'r parodrwydd emosiynol i gymryd camau i ddatrys eu problem.

Mae derbynwyr y grant wedi mesur tri dangosydd sy'n ymwneud â gwella gallu cyfreithiol eu cleient, o ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd.

| | |
|------------|---|
| 93% | Mae cleientiaid yn deall eu problem ac yn deall y gallai gael datrysiad cyfreithiol |
| 81% | Mae cleientiaid yn deall canlyniadau cyfreithiol posibl eu problem |
| 83% | Mae cleientiaid Cam 3a/3b yn deall prosesau'r llys yn well a beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn cynrychioli eu hunain yn y llys |

Canfod a mynd ar drywydd strategaeth datrys problemau yn hyderus

Unwaith y bydd gan unigolyn ddealltwriaeth o'i broblem ac ymwybyddiaeth y gallai fod ganddo rwymedi cyfreithiol, rhaid iddo allu nodi a dilyn trywydd gweithredu priodol i'w ddatrys.

Mae derbynwyr y grant wedi mesur dau ddangosydd sy'n gysylltiedig â nodi llwybr gweithredu a bod â'r hyder i'w ddilyn.

| | |
|------------|---|
| 76% | Mae cleientiaid yn ymwybodol o unrhyw gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer cam nesaf eu taith datrys problemau, gan gynnwys unrhyw waith paratoi sydd ei angen cyn mynd i'r llys |
| 66% | Mae gan gleientiaid fwy o hyder a gallu i ddelio â'u problemau |

Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y cyngor a'r gefnogaeth yn gwella canlyniadau cleientiaid (2 o 2)

Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ddata interim o feintiau sampl gwahanol, felly mae angen mwy o ddata i gefnogi'r casgliadau hyn. Bydd rhagor o ddata'n cael ei gasglu drwy gydol oes LSLIP a bydd y tueddiadau hyn yn cael eu monitro.

Mae astudiaethau achos cleientiaid drwy gydol yr adroddiad yn dangos sut mae gwelliannau o ran y canlyniadau hyn wedi helpu cleientiaid i ddatrys eu problemau, gan wella eu sefyllfaoedd.

Datrys problemau gerbron y llys neu'r Tribiwnlys

Mae LSLIP yn darparu amrywiaeth o gyngor ar hyd y daith datrys problemau, gan gynnwys cyngor a chymorth cynnar hyd at gynrychiolaeth mewn llys neu Dribiwnlys. Y nod yw annog datrys yn gynt, gan ddarparu ystod gyfannol o gymorth sy'n diwallu anghenion y cleient.

Mae derbynwyr y grant wedi casglu data ynghylch a oedd y cyngor wedi arwain at ddatrys problemau cyn gorfod cynnal gwrandawriad llys neu Dribiwnlys, hyd eithaf eu gwybodaeth.

Felly, dylid dehongli'r data hwn gyda pheth gofal, gan y gallai fod achosion lle mae problem y cleient yn gwaethygu neu'n ailymddangos heb i'r cynghorydd wybod.

62%

Cleientiaid a ddatrysodd eu problemau gyda chymorth cyngor cyffredinol, gwaith achos a chymorth cyfreithiol arbenigol cynnar, gan osgoi'r angen i fynd i'r llys.

Bodlonrwydd cleientiaid â'r gwasanaeth a'r canlyniad

Er mwyn mesur boddhad cyffredinol cleientiaid gyda'r gwasanaethau LSLIP, mae derbynwyr lleol a rhanbarthol y grant wedi adrodd am ganran y cleientiaid sy'n fodlon â'r gefnogaeth a gawsant a chanlyniad eu problem.

Efallai y dylanwadir ar hyn gan y ffaith bod y cleient wedi cyflawni'r canlyniad yr oeddent wedi gobeithio ei gael, ac felly efallai nad yw hyn yn adlewyrchiad cywir o ansawdd y gwasanaeth.

Canfyddiad cyffredinol o arolygon cleientiaid a gynhaliwyd gan sefydliadau cynghori yw bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n derbyn cyngor yn dweud eu bod

81%

Mae cleientiaid yn gwneud hunanasesiad cadarnhaol o ansawdd y gwasanaethau a boddhad gyda'r canlyniadau.

Mae derbynwyr cenedlaethol y grant wedi darparu cyfuniad o gyngor cyfreithiol, cefnogaeth ymarferol a gwybodaeth weithdrefnol i bobl ledled Cymru a Lloegr (1/3)

Law for Life

GWEITHGAREDDAU

1. Gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar Advicenow
2. Ehangu mynediad at Affordable Advice
3. Cynnal ymchwil i allu cyfreithiol a gallu digidol

CLEIENTIAID

Dros **750,000 o ymwelwyr Advicenow***, gan gynnwys nifer sylweddol o ddefnyddwyr adnodd PIP, Canllaw Adran 21 a threfniadau plant a chanllawiau ar orchmynton ariannol.

Llwyddodd **250 o unigolion** i gael apwyntiadau gyda chyfreithwyr am ffi sefydlog is na'r cyfartaledd drwy'r **gwasanaeth Affordable Advice***.

CANLYNIADAU

Casgliadau arolwg o 70 o ddefnyddwyr Advicenow: Dywedodd 51% ei fod wedi eu helpu i ddeall beth i'w wneud a sut i'w wneud a dywedodd 48% ei fod wedi eu helpu i deimlo'n fwy hyderus am yr hyn yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud.

Casgliadau arolwg o 60 o ddefnyddwyr Affordable Advice: Dywedodd 93% fod yr apwyntiad wedi eu helpu i deimlo'n fwy hyderus a dywedodd 85% ei fod wedi eu helpu i gyflwyno eu hachos yn well. Mae astudiaeth achos gan gleient Affordable Advice wedi'i chynnwys yn yr adroddiad llawn.

*Ar gyfer rhai gwasanaethau cenedlaethol, nid yw'n bosibl priodoli'n ddibynadwy nifer y defnyddwyr a gyrhaeddwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r grant LSLIP gan eu bod yn cael eu hariannu gan sawl ffynhonnell, ond mae cyllid LSLIP wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno gwefan Advicenow Law for Life a'r gwasanaeth Affordable Advice.

Mae derbynwyr cenedlaethol y grant wedi darparu cyfuniad o gyngor cyfreithiol, cefnogaeth ymarferol a gwybodaeth weithdrefnol i bobl ledled Cymru a Lloegr (2/3)

LawWorks

GWEITHGAREDDAU

Ariannodd LSLIP LawWorks i uwchraddio ei wefan Free Legal Answers, sy'n galluogi defnyddwyr i ofyn cwestiwn cyfreithiol a chael cyngor gan gyfreithiwr pro bono sy'n cymryd rhan.

CLEIENTIAID

Rhoddodd Free Legal Answers **gyngor cyfreithiol i 120 o gleientiaid** gan gyfreithwyr pro bono sy'n cymryd rhan.

Mae Free Legal Answers wedi cefnogi unigolion sydd â phroblemau teuluol (22%), tai (23%) a chyflogaeth (11%).

CANLYNIADAU

Nid yw LawWorks wedi gallu casglu data meintiol am ganlyniadau hyd yma, ond yn ddiweddar maent wedi integreiddio arolwg cleientiaid i'r platfform Free Legal Answers, a ddylai ddarparu mwy o ddata ar gyfer y gwerthusiad terfynol.

Mae derbynwyr cenedlaethol y grant wedi darparu cyfuniad o gyngor cyfreithiol, cefnogaeth ymarferol a gwybodaeth weithdrefnol i bobl ledled Cymru a Lloegr (3/3)

Support Through Court (STC) ac RCJ Advice (RCJA)

GWEITHGAREDDAU

1. Ehangu Llinell Gymorth Genedlaethol STC
2. Recriwtio twrneiod teulu i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol
3. Treialu podiau 'Gofod Diogel' o bell. Cafodd hyn ei ddiwygio oherwydd Covid-19.

CLEIENTIAID


Mae Llinell Gymorth Genedlaethol STC wedi rhoi gwybodaeth ac arweiniad i tua **4,000 o gleientiaid***. Mae STC wedi cefnogi **2,700 o gleientiaid gyda threfniadau ysgaru a phlant** mewn sawl llys. Mae **290 o gleientiaid** wedi cael **cyngor teulu cyfreithiol** gan gyfreithiwr RCJA.

CANLYNIADAU

Nid yw STC ac RCJA wedi gallu casglu data canlyniadau meintiol hyd yma. Fodd bynnag, maent yn dweud bod 99% o gleientiaid, ar draws eu holl wasanaethau, yn teimlo'n fwy hyderus a pharod, 97% yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad gwell a 74% yn teimlo'n llai pryderus. Ceir astudiaeth achos ar gyfer cleient STC ac RCJA yn yr adroddiad llawn.

*Ar gyfer rhai gwasanaethau cenedlaethol, nid yw'n bosibl priodoli'n ddibynadwy nifer y defnyddwyr a gyrrhaeddwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r grant LSLIP gan eu bod yn cael eu hariannu gan sawl ffynhonnell, ond mae cyllid LSLIP wedi cefnogi darparu Llinell Gymorth Genedlaethol STC.

Mae gweithio mewn partneriaeth ac ymyriadau cynharach wedi bod yn allweddol i'r rhaglen LSLIP ac wedi gwella'r cymorth sydd ar gael



Mae prosesau cyfathrebu, ymddiriedaeth, perthynas a rhannu gwybodaeth cadarn wedi bod yn allweddol i hwyluso gwaith partneriaeth llwyddiannus, yn enwedig ar gyfer partneriaethau gydag amrywiaeth o rwydweithiau cynghori gyda gwahanol ddiwylliannau a ffyrdd o weithio.

Roedd hyrwyddo gwasanaethau'n codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ac yn cynyddu cyrhaeddiad ymysg y cyhoedd a sefydliadau cefnogi eraill.

Drwy ffurfioli llwybrau cyfeirio ac atgyfeirio rhwng gwasanaethau a rhannu adnoddau arbenigol, mae derbynwyr y grant wedi gallu ehangu'r cyngor sydd ar gael ar draws ardaloedd daearyddol a meysydd ehangach o'r gyfraith, er mwyn ehangu cwrpas y cyngor sydd ar gael a mynd i'r afael â phroblem cleient.

Roedd y cynnydd mewn capasiti gwasanaethau yn galluogi sefydliadau i ddarparu dull cyfannol o ddarparu gwasanaethau, datrys clystyrau o broblemau, a chyrraedd cleientiaid yn gynharach.

Roedd hyfforddi cynghorwyr a gwirfoddolwyr yn cefnogi gwasanaethau i ddefnyddio ystod o sgiliau i ganfod cyfleoedd atgyfeirio addas ac amserol, yn enwedig wrth i'r partneriaethau a'r rwydweithiau dyfu.

Roedd rhannu'r arferion gorau o fewn y partneriaethau a'r rwydwaith LSLIP ehangach yn cefnogi datblygu a dysgu sefydliadol.

Bydd gweddill cyfnod y grant yn canolbwyntio ar gydweithio parhaus rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder a derbynwyr y grant LSLIP

Parhau i hyrwyddo cydweithio rhwng y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a derbynwyr y grant LSLIP.

Mae'r gwaith partneriaeth hwn wedi cefnogi derbynwyr y grant i wreiddio prosesau newydd, gan gynnal llinellau cyfathrebu agored i addasu i faterion sy'n dod i'r amlwg, sefydlu nodau cyffredin a sicrhau bod y cyllid yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Parhau i gynnal hyblygrwydd y rhaglen LSLIP gan fod hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr er mwyn galluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar ddatblygu.

Mae'r gwaith o sefydlu, gweithredu a monitro'r prosiect wedi bod yn gymhleth ac wedi cynnwys heriau o ran addasu i'r amgylchedd Covid-19 sy'n esblygu. Mae derbynwyr y grant wedi mynegi eu gwerthfawrogiad o hyblygrwydd y grant, er mwyn eu galluogi i ymateb i'r patrymau galw sy'n newid ac addasu i bolisiau dros dro.

Sicrhau bod data, tystiolaeth a dulliau dysgu LSLIP yn parhau i gael eu casglu a'u rhannu â chynulleidfaedd ehangach.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd data a thystiolaeth yn parhau i gael eu casglu a bydd gwerthusiad diwedd grant yn cael ei baratoi yn ystod hydref 2022. Un ffocws allweddol fydd sicrhau bod data, tystiolaeth a dysgu LSLIP yn cael eu rhannu â chynulleidfaedd ehangach.

Roedd y Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol wedi ymrwmo i gynyddu cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder am ddwy flynedd, felly bydd y rhaglen LSLIP bresennol yn dod i ben ym mis Mehefin 2022. Mae llawer o dderbynwyr y grant wedi sôn am yr awydd i gynnal eu partneriaethau, ac i barhau mynd i'r afael â'r problemau cymhleth yn eu cymunedau, gan gynnwys ehangu eu modelau darparu i feysydd eraill o'r gyfraith a/neu ardaloedd daearyddol. Roedd y rhan fwyaf o dderbynwyr y grant yn pwysleisio bod angen cyllid sefydlog, tymor hwy er mwyn darparu'r sicrwydd a'r sefydlogrwydd swyddi tymor hwy sydd eu hangen i'w cadw pan ddaw'r grant i ben.

Adborth Derbynydd y Grant

"Mae ATFJ wedi bod yn gefnogol, yn ddifyr, wedi deall y cyfyngiadau, ac wedi darparu cefnogaeth gam wrth gam i'r problemau a wynebwyd. Mae wedi bod yn grant sy'n cael ei redeg yn dda a'i reoli'n effeithiol."

Y Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder

"...Bydd y prosiect peilot hwn yn ein helpu i gael yr wybodaeth honno i weld beth sy'n gweithio a p'un ai a yw partneriaethau'n gweithio'n lleol ac yn rhanbarthol, sy'n golygu llai o wasanaeth i ddefnyddwyr a bod defnyddwyr yn cyrraedd lle mae angen iddynt fod yn gynt, fel bod eu materion yn cael eu datrys yn gynt."



Ministry
of Justice